Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Eich cyf / Your ref:
Fy nghyf / My ref:
Dyddiad / Date: 14/10/2026

Gofynner am / Please ask for: Tim RhMY
Llinell Uniongyrchol / Direct Line:
E-bost / E-mail:
RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Annwyl Rhanddeiliaid,

Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir
Y Cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim

Ar ddydd Mercher, 14 Hydref 2026, gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin benderfynu cymeradwyo'r cynnig canlynol:

I gau Ysgol Gynradd Meidrim o'r 31 Rhagfyr 2026, trosglwyddo disgyblion i Ysgol Hafodwenog neu Ysgol Griffith Jones ac ail-ddynodi a chynnwys dalgylch Ysgol Gynradd Meidrim o fewn dalgylch bresennol Ysgol Hafodwenog, Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Bancyfelin o'r 1 Ionawr 2027.

Gwrthwynebiadau i'r cynnig

Wrth ddod i'w benderfyniad, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac wedi ystyried y ffactorau perthnasol a nodir ynddo. Nododd y Cyngor fod 151 o wrthwynebiadau a 9 sylw cefnogol wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Ystyriodd y Cyngor yn ofalus gynnwys y gwrthwynebiad a'r sylwadau cefnogol a dderbyniwyd ac ymateb yr Awdurdod Lleol fel y nodir yn yr Adroddiad Gwrthwynebiad a gyhoeddwyd. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y materion a godwyd wedi cael sylw yn briodol.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu ar gyfer y cynnig uchod ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin trwy ddilyn y ddolen isod:

Adroddiad Gwrthwynebu

Ystyried Ffactorau o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Cyngor Sir y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

Ansawdd a safonau mewn addysg

Barn yr Awdurdod Lleol yw y byddai Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o ansawdd o leiaf yn gyfatebol i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Gynradd Meidrim, felly ni ragwelir y bydd gweithredu'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol. Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o o leiaf gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r corff llywodraethu perthnasol i sicrhau cyfnod trosglwyddo hwylus i ysgolion eraill.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Cyngor Sir wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol. Nodwyd bod nifer o leoedd gwag yn Ysgol Gynradd Meidrim oherwydd nifer isel o ddisgyblion. Mae yna ddigon o leoedd yn Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog ar gyfer y disgyblion presennol a'r rhai yn y dyfodol a fydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar leihau'r lleoedd dros ben yn Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog.

Adnoddau addysg

Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae nifer o faterion wedi cael eu hystyried ac, yn benodol y nifer isel o ddisgyblion a rhagolygon, y diffyg ariannol a chyfran y gyllideb fesul disgybl.

Effaith ar y Gymraeg

Wrth benderfynu ar y cynnig, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i baragraff 1.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys y gofyniad i ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'i aliniad â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod.

Er y byddai'r cynnig yn arwain at gau ysgol cyfrwng Cymraeg yng nghymuned Meidrim, byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog. Nodir hefyd, ym mis Medi 2026, bod nifer o ddisgyblion a oedd gynt yn mynychu Ysgol Gynradd Meidrim eisoes wedi trosglwyddo i un o'r ysgolion derbyn arfaethedig neu i ysgolion cyfagos, sy'n dangos bod teuluoed eisoes yn cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg amgen. Ar y cyfan, mae'r Awdurdod yn fodlon na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar y Gymraeg ac mae'n parhau i fod yn gyson ag amcanion Cymraeg 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor.

Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Mae ail rifyn Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn nodi trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig o ran sefydlu rhagdybiaeth drefniadol yn erbyn eu cau ac yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddangos achos cryf dros gau, wedi'i gefnogi gan asesiad trylwyr o'r holl ddewisiadau amgen hyfyw. Mae Ysgol Gynradd Meidrim wedi cael ei ddynodi yn ysgol wledig sy'n golygu eu bod yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ddilyn cyfres fwy manwl o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig.

Ystyrir mai gweithredu'r cynnig i beidio â chynnal Ysgol Gynradd Meidrim yw'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r rhesymau a nodwyd wrth lunio'r cynnig oherwydd y ffactorau canlynol:

- Mae yna nifer sylweddol o leoedd gwag yn Ysgol Gynradd Meidrim oherwydd y cwymp yn y nifer o ddisgyblion dros sawl blwyddyn a dim ond 32 disgybl oedd ar y gofrestr ar adeg cynnal cyfrifiad ysgolion mis Ionawr 2026. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y nifer hwn wedi gostwng i 24 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Medi 2026.
- Mae rhagolygon nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel ar gyfer yr ysgol.
- Mae'r ysgol mewn diffyg ariannol.
- Cyfran cyllideb yr ysgol fesul myfyriwr yw £6,544. Mae hyn yn £571 yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Gaerfyrddin o £5,973 ar gyfer 2026/27.
- Mae'r arweinyddiaeth o fewn yr ysgol yn parhau i fod yn ansefydlog.
- Effaith gadarnhaol ar leihau nifer y lleoedd gwag yn Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog.
- Cefnogi Egwyddorion Ôl Troed Addysg Gynradd Cyngor Sir Caerfyrddin.

Penderfyniad

Ar ôl ystyried y ffactorau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), ac am y rhesymau a amlinellir uchod, mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig.

Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru

Sylwch nad yw'r wybodaeth isod yn berthnasol i rieni / gwarchodwyr ond mae wedi'i darparu er mwyn cyflawnedd.

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Newid Ysgol

Ni fydd plant sydd ar y gofrestr neu sydd wedi cael lle yn Ysgol Meidrim yn gallu parhau â'u haddysg (neu ddechrau) yn yr ysgol ar ôl 31 Rhagfyr 2026.

Rydym yn argymell yn gryf bod rhieni/gofalwyr yn cyflwyno cais newydd cyn gynted â phosibl am ysgol amgen i ddisgyblion barhau â'u haddysg trwy wefan y cyngor.

Newid ysgolion - Cyngor Sir Caerfyrddin

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch i wneud cais am le mewn ysgol arall, cysylltwch â'r tîm derbyn drwy ffonio 01267 246449 neu e-bostiwch **derbyniadau@sirgar.gov.uk**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r tim RhMY.

Yn gywir,

Tîm Rhaglen Moderneiddio Ysgolion